# CWLWM

**MEDI**

**2023**

Rhif 70

**Golygydd:**

**Einir Jones**

**Pris 50c**



***Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru***

## ***Cynnwys***

***Golygyddol***

***Dydd Agored Glyn Nest***

***Harmoni, Pencaer***

***Merched yn Bennaf***

***Llywydd Newydd y Mudiad***

***Ble?***

***Y Byd a'r Betws***

***Ar Gyfer Heddiw'r Bore.***

***Dywediadau Charles Spurgeon***

***Colofn Coginio***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***

# Golygyddol

Er mor eang a hyfryd yw'r golygfeydd o'r traethau ym Mro Gŵyr, stori arall yw eu cyrraedd! Flynyddoedd yn ôl bellach fe aeth John a fi am dro i lawr i Oxwich a phenderfynu mynd ymlaen oddi yno am draeth arall, a dyna ddilyn heol fach gul, a chloddiau uchel o bopty iddi a llawer o droeon sydyn a dim llawer o fannau pasio. Roeddwn i'n falch a dweud y gwir nad fi oedd yn gyrru! Ar hynny dyma ddod at groesffordd ac yn sydyn fe ymddangosodd bws bitw o rywle a mynd o'n blaenau. Nawr, gan amlaf, mae cael peth felly yn horwth anferth o'ch blaen yn gallu bod yn dreth ar amynedd rhai gyrrwyr a'u cyd-deithwyr. Ond nid felly ni y diwrnod hwnnw. Roedd y bws gryn damed yn uwch na'n car ni ac roedd yn amlwg y gallai ei gyrrwr weld dros ben y cloddiau a rownd y corneli oedd yn ein rhwystro ni rhag gweld peryglon na dim byd arall o ran hynny. Roedd hefyd yn amlwg bod ei gyrrwr yn gyfarwydd iawn â'r ffordd. Fe âi ymlaen ar wib a ninnau yn ei wêc yn dilyn yn glos a chyn pen chwinc roedden ni wedi cyrraedd y traeth roedden ni'n anelu amdano. Yn lle petruso ac ymlafnio, dim ond dilyn wnaethon ni.

Roedd hen emyn yn cael ei ganu mewn bedyddiadau gynt. Wn i ddim a yw yn Caneuon Ffydd, ac fe newidiodd ffashiwn hefyd, ond fel roedd pob un yn dod allan o'r dŵr erstalwm fe fydden ni'n canu, 'Dilyn Iesu, Dilyn Iesu, dyna nefoedd teulu Duw.' Yng nghanol trafferthion bywyd ac mewn mannau dyrus ar y daith mae'n dda gwybod bod Iesu yn gweld lot pellach na ni ac yn fwy na pharod i'n harwain yn ddiogel. Ef yw'r ffordd meddai wrthym. Dim ond dilyn yn agos sydd angen.

Einir Jones (Gol.)

*Llun: Geograph Britain and Ireland*

*Heolydd cul Penrhyn Gŵyr*





*Llun: backiee.com Traeth eang Rhosili*

Os garech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT

Neu ebost: einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

# Dydd Agored Glyn Nest



**Gwahoddedigion y Dydd Agored a gynhaliwyd yn y Graig, Castell Newydd Emlyn ar ddydd Mercher olaf Awst: Parchg Irfon Roberts, cadeirydd y ddau bwyllgor; Mr Bill Davies, Llywydd yr Undeb; Parchg Sian Elin Thomas, gweinidog y Graig; Mrs Jayne Evans, Rheolwraig y cartref; Mr Trefor Davies, y gŵr gwadd; Mrs Eluned Davies; Mrs Ruth Davies, Llywydd Mudiad y Chwiorydd; Mrs Mair Roberts, Ysgrifennydd y Pwyllgor Tŷ; Mrs Hazel Evans, Maer Castell Newydd Emlyn a'i gŵr Peter; Mr Maldwyn Lewis, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion a'i wraig y Parchg Carys Ann.**



**Mr Trefor Davies yn cyflwyno rhodd hael i'r Cartref ar ran ei hun ac Eglwys Noddfa Ruhamah Porthcawl.**





# Harmoni Pencaer

## Gan Margaret Davies



Allwch chi gredu ?

Harmoni Pencaer yn dathlu y te parti blynyddol ym mis Mehefin 1896.

Mae'r plant a'r aelodau ar ben Garn Fowr sydd ond tafliad carreg o'r capel. Yn ôl Mr C. Edwards y ffotograffydd o Abergweun dyma oedd y llun mwyaf iddo dynnu erioed!

Adeiladwyd y capel cyntaf yn Harmoni yn 1828 ac y mae yna stori hyfryd am y digwyddiad.

Enw safle'r capel oedd 'Spite' sef lloches i bererinion ar eu ffordd i Dŷ Ddewi.

Tra roedd y gweinidog wrthi yn ceibo'r seiliau i'r capel daeth dyn heibio a dweud yn snichlyd "A! 'Spite' enw da i gapel." a dyma'r gweinidog yn ateb ar unwaith "Na , nid Spite ond Harmoni fydd yn teyrnasu yma" . A dyna sut y cafodd yr enw.

Erbyn 1913 roedd yr eglwys yn agor y trydydd capel gan fod y ddau flaenorol wedi mynd yn rhy fach, fel y mae'r llun hwn yn tystio.

# Merched yn Bennaf

**Ruth Davies,**

**Y Tabernacl, Caerdydd**



*Mrs Ruth Davies*

*Dyma'r anerchiad a draddodwyd gan ein Chwaer i Fudiad y Chwiorydd, Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Y Tabernacl, Caerfyrddin, Gorffennaf 12fed, eleni. (Gol.)*

Ar ôl derbyn yr enwebiad i fod yn Is-lywydd Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru, nid oedd gennyf syniad ynglŷn â thestun f'anerchiad.

Dwi'n cofio dweud hynny wrth y diweddar Barchedig Ddoctor Hugh Matthews, 'Pam na wnewch chi rywbeth am ferched y Beibl,' oedd ei gyngor i mi.

Dyna'r rheswm dros ddewis 'Merched yn Bennaf' fel thema ar gyfer cyfarfodydd blynyddol y Mudiad fis Medi diwethaf.

Efallai y byddai 'Merched y Beibl' wedi bod yn well testun.

Roedd merched y Beibl o gwmpas sawl mil o flynyddoedd yn ôl, ond pan ystyriwn eu hanesion rydym ni'n darganfod pa mor berthnasol ydynt a pha mor hawdd ydi cysylltu eu hanesion hwy gyda'n bywydau bob dydd ni.

Mae'n anhygoel beth gyflawnodd rhai o'r merched hyn:


- rhai yn herio brenhinoedd cas
- ambell un wedi arbed cenedl gyfan
- rhai wedi glynnu'n dynn at addewidion Duw ac wedi arwain byddinoedd
- rhai wedi dioddef trais ofnadwy
- eraill wedi codi teuluoedd ar eu pennau eu hunain
- ambell un wedi newid hanes drwy eu gweddïau
- mae yna hanes am ferch wedi gorfod byw hefo gŵr oedd ddim yn ei charu
- ambell un wedi colli ei henw da
- rhai wedi twyllo a chynllwynio a gwneud camgymeriadau!
- ambell un wedi defnyddio ei harddwch a'i gallu ac wedi bod yn farus a chymryd unrhyw beth roedd ei heisiau – ac wrth gwrs roedd hyn yn ddiwedd arni.

Mis Awst diwethaf roeddwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ac ym mhabell Cytûn. Gofynnais i'r Parchedig Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, os oedd ganddo lyfr â hanesion rhai o ferched y Beibl. Yr ateb oedd - na – ond tynnodd fy sylw at lyfr '*Unveiled – the women of the Old Testament and the choices they made'* gan Clare Hayns. Ymhen rhai dyddiau daeth e-bost gan Aled yn awgrymu y byddai'n braf cael y llyfr yma yn y Gymraeg. 'Dyma brosiect da i ti yn ystod blwyddyn dy lywyddiaeth – ti a rhai o ferched y Tabernacl!' oedd ei eiriau.

Mae stori'r llyfr gwreiddiol yn ddifyr. Yr awdur yw Clare Hayns, ac mae hi yn gaplan ar un o'r colegau yn Rhydychen. Rhyw ddiwrnod roedd mewn siop yn trefnu i gael fframio llun. O weld ei choler wen, fe ddywedodd perchennog y siop wrthi, 'Rwyt ti'n ficer ac felly'n gwybod rhywbeth am Miriam – *she's named in the Bible isn't she?*' Eglurodd mai Miriam oedd enw cariad ei fab, ac yn amlwg roedd eisiau gwybod rhywbeth o hanes Miriam y Beibl.

Cofiodd Clare Hayns fod Miriam yn chwaer i Moses, ond nid oedd yn cofio fawr o'i hanes, a bu'n brysur yn Gwglo wedyn er mwyn cael rhoi ateb cynhwysfawr i berchennog y siop.

Yn sgil y digwyddiad yma fe sylweddolodd Clare cyn lleied roedd yn ei wybod am hanesion nifer o ferched y Beibl. Gadawodd y siop yn benderfynol o ddarganfod mwy am Miriam a hefyd nifer o ferched eraill y Beibl. Gosododd dasg iddi ei hunan, i ysgrifennu am un o ferched y Beibl bob dydd yn ystod deugain niwrnod y Grawys a'i wneud yn flog. Penderfynodd ganolbwyntio ar ferched yr Hen Destament. Yn y man daeth cyfle i gynnwys y cyfan mewn llyfr. Mae mab Clare yn artist ac mae wedi darlunio pob un o'r merched gan ddefnyddio cyfryngau celf gwahanol. Dwi'n meddwl ei bod yn gyfrol hardd iawn. Y newyddion da ydi fod criw ohonom o'r Tabernacl wedi cyfieithu'r llyfr ac edrychwn ymlaen yn fawr i'w lansio yng Nghaerdydd yn ddiweddarach eleni – bydd y gyfrol yn anrheg Nadolig delfrydol i chi i'w roi i'ch ffrindiau!




*Llun: Aled Davies*
*Cyhoeddiadau'r Gair*

Mae ynddi ddeugain pennod, pob un yn dilyn cynllun tebyg. Fe gawn y cyd-destun Beiblaidd i ddechrau, yna ychydig o hanes y ferch dan sylw, myfyrdod byr wedyn i gysylltu'r hanes â'n cyfnod ni, ac yna gweddi fer. Nid yw'n gyfrol ddiwinyddol ac y mae'n hawdd ei darllen.

Beth mae hi'n ddweud am Miriam? Mae'r hanes yn Llyfr Exodus, hanes geni Moses a'i guddio yn y fasged. Miriam oedd plentyn hynaf Amram a Jochefed, Aaron oedd yr ail a Moses oedd yr ieuengaf.

Pwy feddylia beth oedd yn mynd i ddigwydd? Gwelodd merch Pharo y baban a chymryd piti dros y baban bach. Gwyddai mai baban un o'r Hebreaid ydoedd, ond penderfynodd ei fabwysiadu. Cynigiodd Miriam chwilio am nyrs i ofalu am y baban, ac yn dilyn hyn cafodd mam Moses ofalu amdano a chael ei thalu am wneud mae'n debyg!

Yn ystod magwraeth gynnar Moses, roedd ei fam yn dysgu llawer iddo am Dduw. Mae'n debyg iddi feithrin rhyw fath o wytnwch yn seiliedig ar ei ffydd iddo. Nid anghofiodd Moses i bwy roedd o'n perthyn go-iawn, er ei fod yn rhan o fywyd brenhinol yr Aifft – eu duwiau, eu credoau, eu haddysg a'u diwylliant.

Mae'n anodd magu plentyn yn y ffydd pan mae'r byd o'i gwmpas yn gallu bod yn elyniaethus.

Ond nid oedd moethusrwydd palas Eifftaidd wedi dad-wneud beth oedd ei fam wedi ei ddysgu i Moses. Fe ddysgodd Jochefed wirioneddau i'w mab ac ni wnaeth Moses eu hanghofio.

Ond nid dyna ddiwedd stori Miriam! Er ei bod yn byw mewn cymdeithas batriarchaidd yng nghyfnod yr Hen Destament, hi oedd y ferch gyntaf i gael ei henwi'n broffwydes. Fe gofiwch stori croesi'r Môr Coch pan gafodd yr Israeliaid groesi ar dir sych a dianc o'r Aifft, ond yr Eifftiaid, oedd yn eu dilyn, yn cael eu taflu i'r môr, eu ceffylau a'u cerbydau gyda hwy.

Yn syth ar ôl y digwyddiad roedd Miriam wedi estyn am ei thamborîn ac yn arwain y merched mewn addoliad, cân a dawns.

Canodd Miriam gân iddynt, ac mae'n debyg mai Miriam oedd y ferch gyntaf i arwain addoliad yn y Beibl. Roedd yn ferch alluog, doeth a medrus. Fe ddechreuodd hi a'i brawd Aaron feirniadu arweinyddiaeth Moses. Ond roedd Duw yn ymddiried yn llwyr yn Moses, a chafodd Miriam ei chosbi am nad oedd ganddi ddigon o ymddiriedaeth yn Nuw. Roedd yn wers iddi a chafodd wybod mai ond un barnwr sydd, a rhaid ymddiried yn llwyr yn Nuw.

Ni chollodd Miriam barch ac edmygedd ei phobl, ac y mae'n cael ei chydnabod am ei harweinyddiaeth arwyddocaol. Yn chweched bennod llyfr Mica, mae yna adnod sy'n dweud –

'Anfonais Moses i'ch arwain, ac Aaron a Miriam gydag e.'

Dim gwahaniaeth o gwbl rhwng y tri, er bod Miriam yn ferch ac er fod y cyfnod yn un mor batriarchaidd.

Dywed Hugh Matthews yn ei gyfrol, 'Taith drwy'r Hen Destament', 'Er mai eilradd oedd y ferch yn yr Hen Fyd, nid oes rhagfarn yn erbyn merched yn y Beibl, er bod llawer yn gweld hynny yn yr Hen Destament a'r Testament Newydd'.

## Beth yw'r gwersi i ni heddiw o hanes Miriam?

1. Mae'n arwyddocaol fod Jochefed wedi gallu trosglwyddo cymaint i Moses pan oedd yn blentyn a'i fod yn cofio hyn ar ôl iddo dyfu. Siawns fod hyn yn digwydd heddiw o fewn ein teuluoedd?

2. Roedd Miriam yn cael ei chydnabod fel proffwydes, ac yn arwain addoliad ac yn llwyddo i ysbrydoli merched eraill. Na, allwn ni ddim proffwydo, ond mae yna rôl debyg i'r hyn a wnaeth Miriam i ni ferched. Gallwn fod yn barod i arwain addoliad o fewn ein heglwysi ac ysbrydoli ein cyd-aelodau.

3. Ac wrth gwrs ni ddylem byth amau sut y mae Duw yn gweithredu a sut y mae'n dymuno ein defnyddio ni.

Yn yr Undeb yng Ngaerdydd rai wythnosau yn ôl – cawsom hanes sawl merch ifanc sydd wedi cael eu galw i weinidogaethu. Rydym yn hynod falch o weinidogaeth Y Parchedig Sian Elin Thomas, llywydd nesaf y Mudiad, ac y mae'r Parchedig Deb Stammers wedi ei galw i fod yn Weinidog Cenhadol yng Nghymanfa Môn, ac y mae'n Is–Lywydd y Mudiad, merch sydd wedi ei geni yn Lloegr ond yn rhugl yn y Gymraeg erbyn hyn. Mae yna ferch ifanc arall yn gweithio yn y gymuned yn ardal Dolgellau, Danni Worley, eto wrthi'n dysgu Cymraeg, ac y mae Paula Hughes yn gweithio yn Salem, Tonteg ac yn effeithiol iawn o fewn y gymuned yn y pentref.

Mae hi'n galonogol iawn fod cymaint o ferched ifanc yn disgrifio sut y mae llaw Duw yn eu harwain, a siawns fod yna her i bob un ohonom. Mae yna le i weinidogaeth merched o fewn ein capeli yng Nghymru heddiw.

---

# Geiriau Doeth

- Arglwydd, helpa fi i fod yn feistr arnaf fy hunan er mwyn i mi allu bod yn was i eraill.
- D'yw gwir gyfaill byth yn sefyll yn eich ffordd, os nad ydych chi ar y ffordd i lawr.
- Dydyn' ni ddim yn etifeddu'r ddaear oddi wrth ein hynafiaid, rydyn ni'n ei benthyg oddi wrth ein plant.
- Peidiwch defnyddio bwyell i symud pryfyn oddi ar dalcen eich ffrind.
- Chwerthin yw'r haul sy'n gyrru'r gaeaf o'r wyneb.

# Llywydd Newydd y Mudiad

## Y Parchg Sian Elin Thomas



Braf fydd croesawu pawb i Gastellnewydd Emlyn ym mis Medi fel darpar Lywydd Mudiad y Chwiorydd.

Dw i wedi bod yn Weinidog am bron i ddwy flynedd, ac yn y ddwy flynedd hynny rydw i wedi mwynhau pob eiliad. Rydw i wir yn edrych ymlaen i fod yn Llywydd ar y Mudiad sydd â chysylltiad mor gryf â Chartref Glyn Nest. Mae'r Cartref wedi dod yn rhan mor bwysig o fy Ngweinidogaeth.

Dros y ddwy flynedd diwetha' rydw i wedi cael sawl cyfle arbennig i ddod i adnabod fy mhobl a'r ardal, a gallaf ddweud gyda'm llaw ar fy nghalon, fy mod yn caru'r ddau.

Un agwedd o fy ngweinidogaeth sydd wedi dod yn bwysig iawn yw fy ngwaith gyda'r ysgolion lleol. Mae e mor braf rhannu hanesion o'r Beibl gyda phlant lleol rhwng y gwasanaethau a drwy wneud Agor y Llyfr.

Hefyd cefais y cyfle i deithio i Stavanger yn Norwy i fod yn rhan o gynhadledd SENT 2023. Roedd e'n fraint i fod yn rahn o'r tîm wnaeth gynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru. Cefais y cyfle o gyfarfod â Bedyddwyr o bedwar ban byd. Pwyslais y gynhadledd oedd cenhadu, sydd yn agos iawn i'm calon. Sut i weithio gyda phobl ifanc yn ein heglwysi. Sut i sicrhau eu bod nhw yn dod yn rhan bwysig o'r capel, a'u hannog i fod yn arweinwyr y dyfodol. A sut gallwn ni, fel arweinwyr presennol, i weithredu hynny. Diolch i Undeb Bedyddwyr Cymru am y cyfle.

Erbyn i chi ddod i'n gweld ni yng Nghapel y Graig bydd yr Ofalaeth wedi newid gyda Chapel Penybont, Llandysul wedi ymuno i greu Gofalaeth Bro Cemaes, Dyffryn Teifi, a dw i wir yn edrych ymlaen i ddod i adnabod pobl Llandysul. Mae pawb yn gyffrous i'ch croesawu chi i gyd!

# Ble?

1. Ble roedd Moses pan welodd y berth yn llosgi?
2. O ble roedd Nathanael yn hannu?
3. Ble roedd cartref Bartimeus?
4. Ble cafodd Paul ei addysg?
5. Ble bu Abel farw?
6. Ble mae tir Nod?
7. Ble roedd cartref Jeremeia?
8. Ble tynnwyd y to i ffwrdd i ollwng y gŵr cloff at Iesu?
9. Ble y cododd Nebuchodonosor ei ddelw fawr?
10. Ble rhoddodd y Ffaro dir i deulu Jacob?
11. Ble roedd cartref teulu Samuel?
12. Ble'r oedd Ioan yn bedyddio?
13. Ble'r oedd Iesu tu allan i ddrws ei eglwys yn curo?
14. Ble bu Paul a Silas yn canu yn y carchar?
15. Ble'r oedd cartref Dorcas?
16. O ble'r oedd Ruth yn dod yn wreiddiol?
17. I ble'r oedd Jona i fod i fynd i bregethu?
18. O ble'r oedd y gwallgofddyn a wellodd Iesu yn dod?
19. I ble'r oedd Iesu ar ei ffordd pan gyffyrddodd gwraig ymyl ei wisg?
20. Ble'r oedd Anna y broffwydes yn byw?
21. Ble'r oedd cartref y disgybl Phillip?
22. Ble'r arhosodd Pedr yn Joppa?
23. Ble'r oedd Iesu wedi mynd i gael swper gyda dau ddisgybl?
24. Ble'r oedd Samson wedi marw?
25. Ble lladdwyd Saul a'i feibion?

# Y Byd a'r Betws

gan

Sian Megan



*Sian Megan*

Ynghanol y byd'ma a'i holl ffws a ffwdan, sgwn i sawl un ohonon ni sy'n dyheu am dawelwch a llonyddwch. Fe wyddom ni'n iawn y gallwn droi at yr Arglwydd unrhyw adeg a'i gael Ef wrth law wastad i dawelu ofnau a phryderon ein bywyd.

Ers tro byd nawr fe glywn ni am ffyrdd o ymlonyddu ac ymdawelu. Mae erthyglau cylchgronau yn awgrymu dulliau i'n helpu i gau'r byd allan ac i ymlacio. Yoga, neilltuo amser i'n hunain (me time), garddio, mynd am dro ac yn y blaen. Erbyn hyn mae hyd yn oed y byd meddygol yn pwysleisio bod talu sylw i iechyd corff a meddwl person oll ynghlwm wrth ei gilydd. Bod ymarfer corff llawn mor bwysig â bwyta'n iach, ac ymlacio yn yr awyr agored yn falm i'r enaid ac yn aml yn arwain at iechyd gwell. Hynny yw, ein bod ni'n llawer mwy na jyst cig a gwaed.

Mae Duw y Creawdwr wedi gwybod hyn ers cyn cof! Edrychwch ar amlinell bryn a mynydd, sawrwch y grug a'r gwyddfid, gwrandewch ar y deryn du a'r gwdihw, 'sdim byd tebyg i liw porffor celyn y môr ar y 'catwalk' nac un awyren yn gallu cystadlu ag aerodeinameg y barcud coch.

Mewn cornel fach dawel yng Nghymru, yn ardal y Betws, Rhydaman mae ’na lecyn bach hudol lle gallwch chi ymgolli ym myd natur, lle gallwch chi weld a chlywed, sawru a theimlo, o ie, a hyd yn oed flasu rhoddion y Creawdwr yn rhad ac am ddim. Ac ymhle mae hyn ‘te? Yn yr Ardd Natur ym Mharc y Betws.



*Rhai o Gyfeillion yr Ardd*

Ym Mehefin 2022, wedi i Gyngor Cymuned y Betws dderbyn grant oddi wrth y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru, dechreuwyd ar y gwaith o symud hen darmac y cyrtiau tennis. Gyda help y contractwyr lleol TRJ a wnaeth fwy na’r gofyn, dechreuwyd ar y gwaith o drawsnewid y gilfach i fod yn Ardd Natur hyfryd. Bu masnachwyr lleol yn helpu, gwirfoddolwyr yn gweithio’n galed yn plannu coed bach ifanc a rhai cymaint â 6 medr, gyda’r pwyslais ar ddefnyddio coed, planhigion a hadau cynhenid. Cadwyd hanner un cwrt tennis at adeiladu gwelyau wedi’u codi oddi ar y ddaear (raised beds) i dyfu llysiau, gyda pherlysiau a ffrwythau meddal hefyd. Mae perllan fach o goed afalau a gellyg cynhenid yno. Cafwyd hadau yn rhodd gan Ardd Fotaneg Cymru i greu’r dolydd blodau gwyllt. Mae’r contractwyr TRJ wedi adnewyddu hen dram glo o waith glo’r Betws gynt yn rhodd i’r Ardd.

Fel y soniodd Ted Williams, y prif wirfoddolwr wrthai, holl amcan hyn i gyd oedd denu natur a’i bioamrywiaeth i fewn i’r hen gyrtiau tennis maluriedig. Mae hyn wrth gwrs yn dod â peillwyr, mamaliaid, adar a chreaduriaid eraill i’r ardal honno o fewn Parc y Betws.

Yr amcan hefyd oedd cael mwy o wirfoddolwyr, plant, myfyrwyr Coleg Sir Gâr ac eraill i ymhel â'r ardd. Dyma ateb yr angen o safbwynt iechyd a lles wedi'r pandemig llethol ac ymateb i newid hinsawdd a chostau bwyd uwch. Mae'r pwyslais ar ddangos i blant taw nhw piau'r mannau hyn sydd i'w parchu. Mae nifer o grwpiau yn defnyddio'r lle - Ysgol y Betws, Ysgol Bro Banw, Coleg Sir Gâr a Chanolfan Gweithgareddau Heol Manor a Chynllun Dug Caeredin.



*Y Plant a'r Gwenyn*



*Ymweliad gan Ieuenctid*

Ymhlith y gwahanol rai sy'n mwynhau'r mannau hyn i synfyfyrio yn yr Ardd Natur newydd, rwyf i fy hunan ac wedi cael fy swyno gan y llecyn hyfryd yma sydd o fewn tafliad carreg, dim ond i fi groesi'r Aman o nghartref.

Diolch byth am bobl â gweld ynddyn nhw - gweld i helpu eraill ac i greu byd hapusach. A diolch i'r Creawdwr am roi hyn i ni - boed i ni gyd fod yn well stiwardiaid ar ei fyd E.

A chofiwch, os ydych chi yn yr ardal, dewch mewn i'r Ardd Natur - fe gewch chi groeso twym y colier yno.

# ATEBION I BLE

1. Yn anialwch Sinai ger Horeb (Ecsodus 3,1)
2. Cana, Galilea. (Ioan 21,2)
3. Jericho (Marc 10, 46)
4. Yn Jeriwsalem gan Gamaliel. (Actau 22,3)
5. Yn y maes. (Genesis 4, 8)
6. I'r dwyrain o Eden. (Genesis 4,16)
7. Anathoth. (Jeremeia 1,1)
8. Capernaum. (Marc 2,1-4)
9. Gwastadedd Dura yn nhalaith Babilon. (Daniel 3,1)
10. Gosen. (Genesis 47,5)
11. Rama, yn ucheldir Effraim. (I Samuel 1,19)
12. Yn Ainon, ger Salim. (Ioan 3, 23)
13. Laodicea. (Datguddiad 3, 14-20)
14. Phillipi. (Actau 16, 24-25)
15. Joppa. (Actau 9, 36)
16. O Wlad Moab. (Ruth 1,4)
17. I Ninife. (Jona 1,1)
18. Gadara/ Gergasa/ Gwlad y Geraseniaid. (Marc 5,1)
19. I iachau merch Jairus. (Luc 8, 40-56)
20. Yn y Deml yn Jeriwsalem. (Luc 2, 36-38)
21. Bethsaida, Galilea. (Ioan 12,21)
22. Yn nhŷ Simon y Barcer, ar lan y môr. (Actau 10, 6)
23. Emaus.(Luc 24,30)
24. Teml Dagon yn Gasa.
25. Mynydd Gilboa.(I Samuel 31,1)

# Ar Gyfer Heddiw'r Bore

## Dafydd Hughes

## (Eos Iâl), 1792-1862

## gan

## Buddug Medi

Am flynyddoedd lawer bu cred i Dafydd Hughes gael ei eni yn 1794, ond canfu'r Parchg Roger Hughes a fu'n ficer ym Mryneglwys (a thad Nia Rhosier) y cofnod canlynol:

*DAVID, THE SON OF HUGH HUGHES, MILLER, AND CATHERINE HIS WIFE, BORN FEBRUARY 10TH, BAPTISED FEBRUARY 12TH 1792.*

A dyna dystiolaeth ddiamheuol!

Magwyd David Hughes ar aelwyd Brynllwynog, Bryneglwys ger Corwen, mae'r Eos yn datgan hyn yn y farwnad a gyfansoddodd i Harrried Hughes, merch ei chwaer.



*Buddug Medi*

Bu Brynllwynog yn gartref i Sion Pyrs (Philomath) – almanaciwr adnbyddus yn y ddeunawfed ganrif. Ond mae Brynllwynog wedi ei ddymchwel ers blynyddoedd erbyn hyn.

Ceir hanes am Dafydd Hughes yn wehydd ac yn deiliwr yn byw yng Nghynnwyd ger Corwen rhwng 1824 ac 1839. Credir iddo godi tŷ iddo'i hunan yng Nghynnwyd a'i alw yn Lletysiswrn. (Cafodd y tŷ ei ddymchwel yn 1972. Hannah Mary Jones oedd yr olaf i fyw yno.) Mewn eisteddfod leol gosodwyd cystadleuaeth Hanes Cymeriadau'r Fro. Enillwyd gan un Mrs J. M. Jones, Hendre, Cynnwyd, ac mae hi yn disgrifio Dafydd Hughes fel 'gŵr lled dal, o bryd tywyll, a golwg pur benderfynol arno'. Bu farw 'gwraig ei ieuenctid' fel y cyfeiriai Dafydd ati, yn 1839. Fe'i claddwyd ym mynwent Llangar gerllaw Cynnwyd. Mae'n debyg nad oes maen coffa iddi yno.

Yn y tafarnau y cynhelid llawer o eisteddfodau'r cyfnod, a daeth


Dafydd Hughes, dan yr enw barddonol Eos Iâl, yn hoff iawn o'r ddiod gadarn er bod ganddo wyth o blant i'w cynnal.

Dan ddylanwad y ddiod byddai Eos Iâl yn troseddu offeiriad. Ar Chwefror 7fed 1834, roedd yn Eisteddfod Gwyddelwern a bu'n gwag -siarad â ficer y plwyf, y Parchg D. Lewis Jones.

OND, daeth Dirwest i'r broydd hyn ac areithio brwd yn erbyn meddwi nes i lawer gael eu dwysbigo e.e. Huw Derfel (Hughes), sef nai yr Eos. Ganddo ef y cawsom yr emyn gwych 'Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion'. Cafodd Eos Iâl hefyd droedigaeth. Daeth yn wrandawr selog gyda'r Bedyddwyr yng Nghynnwyd dan weinidogaeth y Parchg Edward Evans a phan agorwyd cysegr y Bedyddwyr cyfansoddodd yr Eos saith englyn i'w darllen ar yr achlysur.

Mae'n debyg iddo symud i fyw i Carrog – a elwid yn Llansanffraid Glyndyfrdwy yn y cyfnod hwnnw. Cartrefodd yn y Pentre, y drws nesaf i Tŷ'n yr Ardd, Mwrfydd, Carrog. Yn 1839 ail-briododd gyda gwraig garedig a ffyddlon eto. Dyhead yr Eos oedd cyhoeddi ei waith. Oherwydd tlodi ni allai brynu gwasg. Ond clywodd am bentwr o hen deip a daflwyd yn ddiwerth gan Thomas Thomas, Caer, wedi iddo orffen argraffu 'Railway Guides'. Felly dyma'r Eos a'i wraig yn teithio o Garrog i Gaer- yn cael eu codi gan ambell drol a cherdded cryn dipyn.

Bu'r Eos a'i wraig wrthi am o leiaf flwyddyn yn didoli'r teip a bu ond y dim i'r ddau lwgu o newyn a thlodi. Gwnaeth yr Eos ffrâm bren i osod y teip ynddi. Bu'n bosib argraffu ychydig o gerddi a chafwyd gwerthiant da am geiniog yr un cyn mentro cyhoeddi ambell lyfryn.



*Drych y Cribddeiliwr,*
*www.walmart.com/ip/Drych-y-cribddeiliwr*

Collodd fy nghopi o DRYCH Y CRIBDDEILIWR ei glawr gyda threiglad y blynyddoedd ac amlder ei fodio. Mae arno enghraifft o lawysgrifen fy nhaid:

D.S.DAVIES. VRON LWYD

LLYFR TAID SEF EOS IÂL

(David Salisbury Davies, Fronlwyd, Glyndyfrdwy oedd fy nhad. A dyna brawf bod Eos Iâl yn hen daid i mi!).

Yn Y Cymro Ebrill 2,1899 mae Isaac Foulkes wrth annerch Cymmrodorion Llundain yn datgan mai Gwasg Dafydd Hughes, Llansanffraid Glyndyfrdwy oedd un o'r argraffdai mwyaf anghyffredin yn yr holl fyd!

Cyfansoddodd Eos Iâl gerdd yn gofyn maddeuant gan y Parchg D. Lewis Jones, Gwyddelwern am iddo siarad yn anweddus hefo'r offeiriad pan yn feddw. Prawf arall o'i droedigaeth.

Dyma rai o gampau eisteddfodol Eos Iâl:

Gŵyl Ddewi1824: Cymdeithas Gymreigaidd Corwen ar y testun ar y Greadigaeth. Thomas Edwards y Saer, Corwen a enillodd a daeth David Hughes yn ail.

Rhagfyr 1af, 1824, Eisteddfod i Feirdd ac ati: Cyfasoddi 6 englyn i Gastell Dinas Bran ar Fyr Rybudd ac i Amser. Yr Eos yn fuddugol.

Mehefin 13eg,1826, eisteddfod Llanfair ger Rhuthun. Cyfansoddi Englynion i Frawdgarwch. Eos Iâl yn fuddugol.

Mawrth 1af 1828. Eisteddfod Corwen am gyfansoddi englynion ar y testun 'Llongddrylliad!'Eos Iâl yn fuddugol.

Mawrth1829: Eisteddfod Rhiwabon ar englyn i Breuoldeb Oes Dyn. Eos Iâl yn fuddugol.

Bregus fu iechyd yr Eos. Bu'n gorwedd am rai misoedd o leiaf ddwywaith yn ystod ei oes. Fe'i cofir yn bennaf am ei gyfansoddiad 'Ar Gyfer Heddiw'r Bore' sydd yn cael ei chanu fel carol Nadolig. Yn y ddau bennill cyntaf y mae'n dangos trylwyredd ei adnabyddiaeth ysgrythyrol.

Mewn côr ym Methlem Jiwda-nid côr o leisiau yn canu yw hwn ond hen air Edeirnion am feudy.

Daw Bedydd Credinwyr i'r amlwg ym mhennill olaf y garol – ceir sôn am

I ti'r agorwyd ffynnon

A ylch dy glwyfau duon…

Prawf o'i droedigaeth a'i fedydd.

Yn ôl y Doctor Rhiannon Ifans, Penrhyncoch yn y Traethodydd, Ionawr 1996 , 'Dyma garol blygain fwyaf poblogaidd ein dydd.'

Rhaid cydnabod gwaith ymchwil Bob Owen, Croesor am hanes Eos Iâl. Ac mae Pentre, Carrog, cartref olaf yr Eos, ar ei draed o hyd. Mae'r lle tân eang fel yr oedd yng nghyfnod Eos Iâl. Y tu allan, mae cafn o ddwr croyw a llechen yn ei amgylchynnu.

---

(*Isod, gwelwch fy mod wedi cynnys yr hen Garol enwog a gyfansoddwyd gan Eos Iâl yn ei chrynswth er mai dim ond 4 neu 5 pennill sy'n cael eu canu gennym fel arfer. Mae'r Garol yn werth ei darllen i gyd. Uchod hefyd ychydig nodiadau gan Buddug Medi ar y Gwaith. Gol.)*

**Carol Plygain**

**ar y dôn, Mentra Gwen**

Ar gyfer heddyw'r bore
Yn faban bach,
yn faban bach,
Y ganwyd gwreiddyn Jese &.
Y cadarn ddaeth o Bosra,
Y Iawn gaed ar Galfaria,
Y deddfwr gynt ar Seina, &
Yn sugno bron Mareia'n faban bach.

Caed bywiol ddwfr Eseciel
Ar lin Mair, ar lin Mair,
A gwir Feseia Daniel ar lin Mair.
Caed bachgen doeth Eseia,
'R addewid roed i Adda,
Yr Alpha a'r Omega ar lin Mair, &.
Mewn cor yn Bethlem Juda ar lin Mair.

Gorffwyswch bellach Lefiaid.
Cafwyd Iawn, cafwyd Iawn,
Nid rhaid wrth anifeiliaid &,
Diflanu a wnaeth y cysgod,
Mae'r sylwedd gwedi dyfod,
Nid rhaid wrth Wyn, na Bychod, &.
Na theirw, na thurturod, cafwyd Iawn.

Ystyriwn gariad Trindod
O'u gwir fodd, o'u gwir fodd,
Yn trefnu ffordd y cymod, &.
Y Tad cyn ethol meichiau.
y Mab yn foddlon diodde,
Ar Ysbryd sangtaidd ynte &.
yn tywys Seion adre, o'u gwir fodd.

Diosgodd Crist ei goron
O'i wir fodd, o'i wir fodd,
Er mwyn coroni Seion o'i wir fodd,
Gan blygu ei ben dihalog
O dan y goron ddreiniog,
A dioddef dirmyg llidiog, o'i wir fodd &
Er codi pen yr euog, o'i wir fodd.

O cofiwn Gethsemane,
Lle bu Ef, lle bu Ef,
yn chwysu'r gwaed yn ddagrau, &.
Ac am y fflangell greulon
yn arddu cefn y cyfion,
Ar hyd heolydd Seion' lle bu Ef &,
A'i gnawd yn gwysi hirion, lle bu Ef.

Hawdd holrain ei gerddodiad
Hyd y llys, hyd y llys,
Gan linell goch gwaedlifiad, &.
Lle cafodd IESU cyfion
Ei watwor gan elynion,
A tharo'i wyneb tirion yn y llys, &.
Er dirmyg ar ei berson yn y llys.

O'r llys at orsedd Pilat Er ein mwyn, er ein mwyn,
Taenellwyd gwaed ein Ceidwad, &
Lle bu y Duw anfeidrol
yn goddef barn angheuol,
Gan ei greadur meidrol, &.
yn fud fel caeth condemniol &.

O dacw'r Oen mewn dalfa
Er ein mwyn, er ein mwyn,
Yn esgyn pen Calfaria, &.
I ddioddef dwyfol loesion,
Ar bren y groes rhwng lladron,
y bicell fain, a'r hoelion, &.
A cholli gwaed ei galon er ein mwyn.

Gorweddodd yn y beddrod
Er ein mwyn, er ein mwyn,
I dynnu'r damp o'i waelod, &.
Yn awr mae ar ei orsedd
yn cynyg rhad drugaredd,
Maddeuant, a thangnefedd &
I'r adyn mwyaf ffiaidd, er ein mwyn.

Cyfiawnder a foddlonwyd
Waith yr Iawn, waith yr Iawn,
A’r ddeddf a anrhydeddwyd &
Mae Uffern fawr yn crynu,
A’r Ddurtur bêr yn canu,
A Duw a dyn yn gwenu, &
Mewn hedd y’mherson Iesu,&

Am hyn bechadur brysia Fel yr wyt, fel yr wyt,
Ymofyn am y noddfa, fel yr wyt,
I ti'r agorwyd ffynnon,
A ylch dy glwyfau duon
Fel eira gwyn yn Salmon, fel yr wyt, &.
Gan hynny tyrd yn brydlon fel yr wyt.

*Gwaith Eos Iâl wedi ei gymeryd o Drych y Cribddeiliwr*
*Sylwch ar y sillafu gwreiddiol.*

---

# Dywediadau Charles Spurgeon

- Trwy ddal ati fe gyrhaeddodd y falwen arch Noa.
- Doethineb yw'r defnydd iawn o wybodaeth.
- Fe all celwydd deithio hanner ffordd o rownd y byd tra bod y gwir yn gwisgo ei esgidiau.
- Cymeriad da yw'r feddargraff orau.
- Mae'r Arglwydd yn cael ei filwyr gorau o ucheldir gofidiau.
- O dau ddrwg peidiwch â dewis yr un.
- Rhoi yw'r gwir gael.
- Llanwch y ddaear gyda'ch caneuon o ddiolch.
- Y mae nerth yn yr Efengyl sydd y tu hwnt i bob disgrifiad.

# Colofn Coginio

## (1)

## Teisen hadau ffenigl, lemon a llaeth enwyn

### Mrs Ruth Davies, Caerdydd

Ar ôl ein Cyfarfod Cyffredinol ym Mhenrhyncoch pnawn Iau, 6ed Gorffennaf bu cymdeithasu difyr dros baned a theisen. Daeth cais am rysait y deisen gan fod pawb wedi mwynhau y blas gwahanol ac felly dyma ei gynnwys:

### Cynhwysion

- 220g menyn dihalen, wedi'i feddalu
- 1 llond llwy fwrdd o hâd ffenigl
- 200g siwgr mân
- 3 ŵy
- 2 lemon mawr, wedi'u gratio a sudd o un ohonynt
- 200g blawd plaen
- 1 llwy de o hufen tartar
- 1 llwy de o bowdr codi
- 120ml llaeth enwyn (buttermilk)
- 200g siwgr eisin

## Dull

Cynheswch y popty/ffwrn i wres o 180˚C/160˚C popty gwyntyll/nwy rhif 4.

Irwch dun teisen dorth 450g a'i leinio â phapur menyn. Mae'n well gen i ddefnyddio dau dun llai o faint nag un mawr – ond mae angen eu hiro a'u leinio â phapur menyn.

Malwch dwy ran o dair o'r hadau ffenigl mewn pestl a mortar a'u gadael naill ochr.

Hufennwch y menyn a'r siwgr mân yn dda ac yna curo'r wyau i mewn i'r cymysgedd un ar y tro.

Cyfunwch yr hadau ffenigl sydd yn barod wedi'u malu, croen lemon, blawd, hufen tartar, powdr codi a hanner llwy de o halen mewn powlen ar wahan. Yna ychwanegwch at y cymysgedd hufennog a churo am 20 eiliad. Ychwanegwch y llaeth enwyn.

Rhowch y cytew yn y tun/tyniau pobi. Pobi'r deisen fawr am 55 munud – 1 awr a'r rhai llai am 40 – 45 munud hyd nes fo'r deisen wedi codi a sgiwer yn dod allan yn lân o'r canol.

Gadewch i oeri yn y tun.

Sgeintiwch y siwgr eisin i bowlen ac ychwanegu'r sudd lemon i wneud eisin. Taenwch yr eisin dros y deisen ac yna gwasgarwch yr hadau ffenigl sydd ar ôl drosti.

Mwynhewch!

Ruth Davies



**(2)**

## Cacen Pinafal.

### Mrs Mair Roberts, Aberteifi

- Tun 15 owns pinafal wedi wasgu (435g)
- 4 owns margarîn
- 4 owns siwgwr brown
- 8 owns syltanas
- 4 owns ceirios
- 4 owns datys
- llond llwy de Soda-codi
- 2 ŵy
- 4 owns fflŵr plaen
- 4 owns fflŵr codi



*Llun; recpepes.com*

### Dull.

Gosodwch y (crushed) pinafal, margarîn, siwgwr, syltanas, ceirios a datys (y ddau olaf wedi eu torri yn ddarnau) mewn sosban a'u coginio'n araf am 15 munud. Ychwanegwch y soda codi a'i adael i oeri. Curwch yr wyau a'u hychwanegu i'r gymysgedd oer gyda'r fflŵr plaen a'r fflŵr codi. Gosodwch y cyfan mewn tun 8" a'i goginio am awr a hanner i awr tri chwarter, nwy 3-4; trydan 180° C (350°F).

(*Fe ddaeth y rysait hon ar gyfer Cwlwm Mai eleni ond yn anffodus doedd gen i ddim lle i'w chynnwys bryd hynny, felly dyma rysait i chi gan Lywydd Mudiad Chwiorydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn ogystal ag un gan y llywydd Cenedlaethol. Gol.)*



# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Diolchir am gyfle arall i rannu gyda darllenwyr y Cwlwm ddiweddariadau am weithgaredd y Mudiad. Er mai ond pedwar mis a aeth heibio oddi ar rhifyn Mai, mae digon wedi digwydd a digon felly i adrodd amdano.

**Dydd Agored Glyn Nest** - Ysgrifennaf yr adroddiad hwn drannoeth Dydd Agored Glyn Nest, achlysur sy'n bwysig ar galendr y Mudiad, ond achlysur na chafwyd y cyfle i'w gynnal oddi ar 2019 oherwydd cyfnod y pandemig a'i effeithiau. Braf iawn felly oedd cael dod ynghyd ar ôl saib o bedair blynedd i 'lawen gwrdd â hen gyfeillion' ac i gefnogi achos mor agos at galon y Mudiad. Am resymau y tu allan i reolaeth y Pwyllgor Tŷ, nid ar safle Glyn Nest ei hunan y cynhaliwyd yr achlysur eleni ond yng Nghapel y Graig gerllaw. Trwy garedigrwydd aelodau'r capel, agorwyd drysau eu croeso led y pen. Dechreuwyd yr achlysur gydag oedfa fer a'r Parchg Sian Elin Thomas, gweinidog yr eglwys a chaplan y cartref, yn croesawu pawb ynghyd. Y Parchg Irfon Roberts, cadeirydd y ddau bwyllgor, estynnodd groeso i'r gwahoddedigion, ac yn eu plith yr oedd llywydd cyfredol y Mudiad, Mrs Ruth Davies, Caerdydd. Cyfeiriodd Ruth at y cysylltiad agos rhwng y Mudiad â'r cartref cyn cyflwyno rhodd o'i gwaith ei hun a fyddai'n fodd i harddu'r cartref ac i estyn croeso cynnes i bob ymwelydd. Mr Trefor Davies, Porthcawl gafodd y fraint o agor y digwyddiad a chyflwynodd rodd ariannol hael i'r cartref ar ran ei eglwys, Noddfa Porthcawl. Bu'r tywydd yn garedig iawn a chafodd pawb fwynhad y tu mewn, tu allan, a thu cefn y capel, lle roedd gardd hyfryd i ymlacio a sgwrsio ynddi.

**Y Pwyllgor Cyffredinol Blynyddol** – Mis ynghynt, ar ddechrau Gorffennaf, daeth aelodau'r Pwyllgor Cyffredinol at ei gilydd yn Festri Penrhyn-coch i glywed am y diweddaraf o Glyn Nest ac am weithgareddau'r chwiorydd o fewn y Cymanfaoedd. Trafodwyd hefyd dau beth penodol, sef a ddylid cynnal Pwyllgor Cyffredinol Gorffennaf wyneb yn wyneb neu dros y we; a hefyd a'i Gorffennaf oedd y mis mwyaf addas i gynnal y pwyllgor hwn. Gwnaed cryn ymchwil ymlaen llaw ynghylch y ddau beth a chafwyd cytundeb

mai'r ffordd orau ymlaen fyddai cynnal y Pwyllgor Gwaith dros zoom, a hynny oherwydd y posibilrwydd o dywydd anffafriol ym mis Mawrth; ac yna ymgeisio am gyfarfod hybrid yng Ngorffennaf. Erbyn hyn, trefnwyd cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 ar ddydd Iau, 4ydd Gorffennaf am 1.30yp yng Nghanolfan Pantyfedwen Aberystwyth, lle bydd cyfleusterau hybrid ar gael, gan roi'r dewis i'r aelodau fynychu wyneb yn wyneb yn Aberystwyth neu ymuno o'u cartrefi. O ran materion ariannol, penderfynwyd codi ffi ymuno â'r Mudiad i leiafswm o £15; rhoi'r manylion banc ar y ffurflen ymlaelodi i hwyluso'r talu; a chyflwyno'r rhodd arferol o £1,000 i Gartref Glyn Nest.

**Cyflwyniad y Mudiad yn Undeb Caerdydd** – Lai na phythefnos cyn hynny, cafodd llywydd ac is-lywydd y Mudiad y fraint o gyflwyno adroddiad am weithgareddau'r Mudiad ar lawr cynhadledd flynyddol yr Undeb. Soniodd Ruth am yr her a roddodd iddi'i hunan yn ystod ei llywyddiaeth, sef trosi i'r Gymraeg y gyfrol gyfoethog 'Unveiled' a oedd yn cynnwys deugain o hanesion am ferched yr Hen Destament. Roedd Ruth, ynghyd â rhai o'i chydaelodau yn y Tabernacl, Caerdydd a ffrindiau eraill wedi llwyddo yn y dasg ac edrychir ymlaen nawr at lansio'r llyfr "Codi'r Llen" yn ystod y misoedd nesaf. Hanesion difyr o'i gwaith fel Caplan Glyn Nest a gafwyd gan Sian Elin a phawb wrth eu boddau i glywed diweddariadau am y cartref a sefydlwyd mwy na 50 mlynedd nôl er mwyn gwasanaethu'r gymuned.

**Cwlwm –** Ym mis Mai yr ymddangosodd rhifyn cyntaf y flwyddyn o'r Cwlwm a rhaid diolch i bob un a gyfrannodd at y rhifyn hwnnw a'r rhifyn cyfredol. Diolchir yn arbennig iawn i Einir Jones am gysodi a golygu'r cyfan mewn llyfryn deniadol a diddorol. Mae'n siwr y bydd hi ar eich ôl i gyfrannu at un Mai 2024 cyn hir!

**Cyfarfod Blynyddol Senana Cymru –** Ym mis Mai hefyd ceir cyfle i lywydd y Mudiad ddwyn cyfarchion i lywydd newydd Senana Cymru. Teithio i Gaersalem Caernarfon wnaeth Ruth felly i gyfarch Menna Machreth wrth iddi gamu i'r llywyddiaeth hwnnw.

**Deunydd Gwau a Gwnïo** - Mae chwiorydd ar draws Cymru'n parhau'n brysur gyda'u dwylo drwy gydol y flwyddyn a nifer fawr o ddeunydd wedi dod i law eto. Diolch o galon i bob un ohonoch!

**Cynhadledd Chwiorydd Ewrop** - Wedi edrych nôl dros y misoedd diwethaf, dyma fi nawr yn troi fy ngolygon ymlaen i fis Hydref. Ni

chafwyd cynrychiolydd o'r Mudiad yng Nhgynhadledd Chwiorydd Ewrop oddi ar 2008 pan aeth Gillian Davies a minnau i Dalfsen ac chael ein bendithio'n helaeth. Cyffrous iawn eleni felly yw'r ffaith bod ein llywydd cyfredol Ruth Davies ac un o'n cyn-lywyddion Eleri Lloyd Jones yn mynd i'n cynrychioli yn y Gynhadledd yn Latvia. Dymunwn pob bendith iddyn nhw.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr Y Byd Tachwedd 2023 –** Troediwn ymlaen wedyn i'r 6ed o Dachwedd pryd y caiff chwiorydd Cymru'r cyfle i gyd-weddïo unwaith eto gyda chwiorydd Bedyddiedig ar draws y byd i gyd. Thema 2023 yw "Anadl Bywyd" a dynnwyd o Job 33: 4: "Ysbryd Duw a'm lluniodd; ac anadl yr Hollalluog a'm ceidw'n fyw." Mae'r Parchedig Jill Tomos, un o gyn-lywyddion y Mudiad, eisoes wedi dechrau cyfieithu ac addasu'r oedfa ar ein cyfer eleni eto a bydd yr oedfaon yn cael eu hanfon allan i'r eglwysi mewn da bryd. Gyda'r arferiad hwn yn mynd nôl dros 70 mlynedd, mawr obeithir y bydd y traddodiad yma o weddïo gyda gweddill chwiorydd y byd yn parhau mewn cartrefi, eglwysi a chymunedau ar draws Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Mudiad –** Mentraf droi fy ngolygon ymlaen ddwy flynedd nawr! Pan ddaw 2025, fe fyddaf wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd y Mudiad am ugain mlynedd, a fy ngobaith yw camu i lawr o'r cyfrifoldeb. Gofynnir yn daer felly ar i bawb ystyried olynnydd imi.

**Cyfarfodydd Blynyddol y Mudiad 2023 –** A dyma fi nawr nôl yn y presennol ac yn gorffen fy adroddiad yn yr un man ag y dechreuais, sef yn Y Graig Castell Newydd Emlyn lle cynhelir y Cyfarfodydd Blynyddol eleni. Gorchwyl olaf y llywydd bob blwyddyn yw llywyddu oedfa'r prynhawn ac erbyn bydd y rhifyn yma yn eich dwylo fe fydd y cyfarfod hwnnw wedi bod a'r Parchg Sian Elin Thomas wedi esgyn i'r llywyddiaeth. Nid ar chwarae bach y trefnir cyfarfodydd fel hyn ac felly diolch o waelod calon i Sian Elin a'i thîm o weithwyr am yr holl drefniadau. Wrth longyfarch a dymuno'n dda i'r llywydd newydd, ceir cyfle hefyd i estyn croeso i'r is-lywydd, y Parchg Deb Stammers o Gymanfa Môn a chyhoeddi mai tro Cymanfa Penfro fyddai ethol yr is-lywydd nesaf. Byddwn wedi cael cyfle hefyd i ddiolch o galon i Ruth Davies am ei harweiniad cadarn hithau dros y flwyddyn a aeth heibio.